Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Sicrhau mynediad at wybodaeth a gwasanaethau mewn oes ddigidol:

Crynodeb o'r ymatebion gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd

Medi 2022

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i diogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn, rhoi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran, atal cam-drin pobl hŷn, a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd yn gweithio i sicrhau Cymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, lle mae hawliau'n cael eu cynnal a lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640670

E-bost: gofyn@comisiynyddph.cymru
Trydar: @comisiwnphcymru

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

Fformatau Hygyrch

Of hoffech dderbyn y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni.

Cynnwys

Cyflwyniad	04
Rhan 1a – Sicrhau mynediad at wybodaeth a gwasanaethau drwy ddulliau nad ydynt yn ddigidol	05
Rhan 1b – Cynnal neu wella mynediad at wybodaeth a gwasanaethau yn y dyfodol	09
Rhan 2a – Galluogi a chefnogi pobl hŷn i fynd ar-lein	11
Rhan 2b – Cynnal neu ddatblygu mesurau i alluogi a chefnogi pobl hŷn i fynd ar-lein yn y dyfodol	16
Y ffordd ymlaen	19
Atodiad A – Mae'r Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd a gyfrannodd i'r adroddiad hwn	20

Cyflwyniad

Mae'r defnydd cynyddol o dechnoleg ddigidol yn golygu bod y ffyrdd yr ydym yn cael mynediad at wasanaethau a gwybodaeth, a'r ffyrdd yr ydym yn cyfathrebu, wedi newid yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf.

Yn ystod y pandemig Covid-19 bu cyrff cyhoeddus ledled Cymru yn defnyddio'r rhyngrwyd i gyflenwi eu gwasanaethau a darparu gwybodaeth yn ddigidol, fodd bynnag, dangosodd y pandemig y rhaniad digidol mawr sy'n bodoli yng Nghymru ac roedd llawer o bobl hŷn yn cael anhawster i gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau.

Mewn ymateb i'r newid sylweddol hwn i'r ffordd yr oedd gwasanaethau'n cael eu cyflenwi, cyhoeddodd y Comisiynydd ganllawiau i awdurdodau lleol a byrddau iechyd ym mis Tachwedd 2021 – 'Sicrhau mynediad at wybodaeth a gwasanaethau mewn oes ddigidol' – sy'n nodi'r mathau o gamau y dylent fod yn eu cymryd er mwyn i'r bobl nad ydynt yn gallu (neu nad ydynt yn dymuno) mynd ar-lein i gael ffyrdd o gael mynediad at y wybodaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt drwy ddulliau nad ydynt yn ddigidol, a chefnogi pobl hŷn i fynd ar-lein.

Datblygwyd y canllawiau mewn partneriaeth â phobl hŷn a rhanddeiliaid allweddol a chawsant eu cyhoeddi o dan Adran 12 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Cymru) 2006, sy'n golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd ystyried y canllawiau wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Yn y canllawiau mae'r Comisiynydd yn datgan bod yr hawl i gael mynediad at wybodaeth yn elfen allweddol o'r hawl ehangach i ryddid mynegiant ac mae wedi'i warchod ar draws nifer o offerynnau hawliau dynol, gan gynnwys Cyfamod Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol, a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998.

Mae'r Canllawiau yn esbonio bod yn rhaid i unrhyw symudiad i wasanaethau digidol gael ei ategu gan fesurau i sicrhau bod hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u bod yn cael eu galluogi i gael mynediad at wybodaeth a chael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt drwy sianeli all-lein, neu os ydynt yn dewis, eu bod yn cael eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder i allu cysylltu ar-lein. Mae enghreifftiau o arfer da sydd eisoes ar waith mewn rhai rhannau o Gymru er mwyn sicrhau mynediad nad yw'n ddigidol at wybodaeth a gwasanaethau yn ogystal â mentrau i gefnogi pobl hŷn i fynd ar-lein yn ddiogel wedi'u cynnwys yn y Canllawiau hefyd.

Cyhoeddwyd ffurflen gyda'r Canllawiau i awdurdodau lleol a byrddau iechyd ei chwblhau a'i dychwelyd. Roedd yr adran gyntaf yn ceisio casglu enghreifftiau o'r mesurau sydd ar waith yn awr i ddarparu mynediad at wybodaeth drwy ddulliau nad ydynt yn ddigidol yn ogystal ag unrhyw gynlluniau i hwyluso neu wella mynediad yn y dyfodol, ac roedd yr adran arall yn ceisio casglu enghreifftiau o'r mesurau sydd ar waith yn awr i alluogi a chefnogi pobl hŷn i fynd ar-lein yn ogystal ag unrhyw gynlluniau i gefnogi pobl hŷn ymhellach i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder i weithredu ar-lein yn y dyfodol.

Mae'r canlynol yn darparu trosolwg o'r mathau o fesurau a fabwysiadwyd gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd.

Rhan 1a – Sicrhau mynediad at wybodaeth a gwasanaethau drwy ddulliau nad ydynt yn ddigidol

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn cydnabod bod y cyfyngiadau a'r mesurau a gyflwynwyd mewn ymateb i Covid-19 wedi effeithio ar y ffordd yr oedd y cyhoedd, ac yn benodol pobl hŷn nad ydynt ar-lein, yn gallu cael mynediad at wybodaeth.

Awdurdodau Lleol

Mae ymatebion gan awdurdodau lleol yn nodi sut y gwnaethant gyflwyno ystod o lwybrau nad oeddynt yn ddigidol yn gyflym i estyn allan i bobl hŷn er mwyn iddynt wybod sut i gysylltu â'r awdurdod, yn ogystal â darparu dulliau i rannu gwybodaeth. Cyfeiriodd pob un o'r awdurdodau lleol at staff rheng flaen yn darparu a hwyluso mynediad hollbwysig at wybodaeth, gwasanaethau a chymorth.

Taflenni, llyfrynnau a chylchlythyrau

Cyfeiriodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol at gynhyrchu copïau papur o daflenni, llyfrynnau a chylchlythyrau yn eu hymatebion, sy'n cael eu dosbarthu'n aml drwy grwpiau sefydledig neu eu darparu mewn pwyntiau gwybodaeth mewn hybiau neu ganolfannau cymunedol, wedi'u gosod mewn siopau lleol neu drwy'r gwasanaeth llyfrgell symudol. Soniodd rhai hefyd bod taflenni gwybodaeth naill ai wedi'u postio'n uniongyrchol i gyfeiriadau cartref neu wedi'u gosod mewn parseli bwyd i'w dosbarthu.

Cyswllt ffôn

Llwyddodd y rhan fwyaf o awdurdodau i ail-sefydlu mynediad dros y ffôn, yr amharwyd arno i ddechrau gan y cyfyngiadau 'gweithio gartref', naill ai drwy eu gwasanaeth canolog 'Cysylltwch â Ni' neu Un Pwynt Mynediad neu ddarpariaeth debyg.

Hybiau Cymunedol

Dywedodd nifer o awdurdodau eu bod wedi sefydlu Hybiau Cymunedol i wasanaethu fel pwyntiau gwybodaeth ac i ddarparu manylion pellach ynghylch cael mynediad at gymorth, naill ai dros y ffôn neu mewn cyfarfod wyneb yn wyneb a oedd wedi'i drefnu ymlaen llaw.

Sgriniau cyhoeddus / posteri

Soniodd nifer o awdurdodau am y defnydd o sgriniau cyhoeddus mawr a phosteri yng nghanol trefi i rannu manylion cyswllt a gwybodaeth am Covid-19.

Gwasanaeth Llyfrgell

Cyfeiriodd llawer o awdurdodau lleol at eu gwasanaethau llyfrgell – roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi addasu i ddarparu gwasanaeth llyfrgell symudol ac roedd rhai wedi datblygu gwasanaeth

dosbarthu i'r cartref yn ystod y cyfyngiadau symud. Lle'r oedd adeiladau llyfrgell yn ail-agor yn awr, roedd y staff yn gwasanaethu fel darparwyr gwybodaeth a hwyluswyr.

Hybiau a rhwydweithiau Cymorth i Ofalwyr

Soniodd rhai awdurdodau lleol am sefydlu hybiau a Rhwydweithiau Cymorth i Ofalwyr i gynnig cymorth pellach a chefnogaeth grŵp cymheiriaid i Ofalwyr.

Canolfannau Dydd / Clybiau Cinio

Soniodd nifer o awdurdodau lleol am Ganolfannau Dydd a chyfleusterau clwb cinio â chymhorthdal – a oedd yn galluogi i grwpiau gwrdd a darparu pryd o fwyd maethlon, a hefyd darparu cyfleoedd i rannu gwybodaeth a chyngor. Yn ystod tywydd braf, defnyddiwyd teithiau cerdded Cymunedol i rannu gwybodaeth.

Swyddogion Ymgysylltu / Cysylltwyr Cymunedol / Swyddogion Cymorth Penodedig

Soniodd nifer o awdurdodau lleol am staff penodedig a oedd yn ymgysylltu'n weithredol â grwpiau cynghori, grwpiau ffocws, grwpiau llywio a fforymau 50+ sefydledig pobl hŷn. Dywedodd nifer ohonynt eu bod yn cynnal ymgynghoriadau ac arolygon yn awr gyda'r grwpiau hynny a grwpiau a gweithgareddau eraill yn y gymuned, er enghraifft grwpiau cerdded, i hysbysu gwaith yr awdurdodau ar Gymunedau Oed-gyfeillgar.

Gweithio mewn Partneriaeth

Soniodd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol at waith partneriaeth cadarn, gan gynnwys gwaith gydag asiantaethau'r trydydd sector a chydweithio gyda byrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau llesiant a gwybodaeth.



Byrddau Iechyd

Cylchlythyrau, Llythyrau, Taflenni Gwybodaeth

Dywedodd pob bwrdd iechyd eu bod wedi darparu deunydd argraffedig, er enghraifft llythyrau apwyntiadau a thaflenni gwybodaeth, a oedd hefyd ar gael fel fersiynau hawdd eu darllen a phrint bras.

Soniodd nifer ohonynt hefyd eu bod wedi cynhyrchu cylchlythyrau (rhai ar gyflyrau penodol) fel dull o rannu gwybodaeth gyda chleifion. Soniodd y rhan fwyaf ohonynt fod taflenni gwybodaeth ar gael yn helaeth mewn lleoliadau gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd.

Ffonau – Llinellau cymorth

Roedd pob un o'r byrddau iechyd yn darparu mynediad ffôn i bobl drefnu apwyntiadau, yn ogystal â llinell gymorth ar gyfer ymholiadau cyffredinol a chymorth. Soniodd nifer o fyrddau iechyd am wasanaeth ffôn arall a oedd yn galluogi cleifion i ddarparu adborth neu i gwblhau holiaduron ar ganlyniadau.

Apwyntiadau wyneb yn wyneb / Ymweliadau cartref

Er y cydnabuwyd i'r pandemig amharu'n gyffredinol ar y system apwyntiadau wyneb yn wyneb, dywedodd y rhan fwyaf o'r byrddau iechyd eu bod wedi cynnal rhywfaint o ymweliadau cartref drwy wasanaethau pwrpasol i gleifion a oedd yn gaeth i'w cartrefi, rhai drwy eu nyrsys Gofal Sylfaenol neu nyrsys ardal.

Cymorth y Trydydd Sector / Hybiau Gwybodaeth

Cyfeiriodd nifer o'r byrddau iechyd at y cymorth a ddarparwyd gan asiantaethau'r trydydd sector, yn benodol mewn lleoliadau ysbyty. Roedd yr asiantaethau hyn, yn aml ochr yn ochr â gwasanaethau gwybodaeth a chymorth neu hybiau a oedd wedi'u lleoli yn yr ysbytai, yn ymgysylltu â chleifion ac yn eu cynorthwyo i gael mynediad at wybodaeth, llenyddiaeth ar gyflyrau iechyd penodol, gwybodaeth ynghylch hawlio budd-daliadau yn ogystal â manylion gwasanaethau a sefydliadau eraill sydd ar gael yn lleol.

Soniodd rhai byrddau iechyd bod asiantaethau'r trydydd sector hefyd wedi bod yn hollbwysig yn darparu cymorth drwy wasanaethau rhyddhau i'r cartref.

Gweithio mewn Partneriaeth / Rhwydweithiau / Grwpiau cymunedol

Soniodd rhai byrddau iechyd am atgyfnerthu perthnasau gydag awdurdodau lleol, cynrychiolwyr etholedig a'r sector cyhoeddus ehangach er mwyn gwella cyrhaeddiad cyfathrebiadau a negeseuon. Soniodd nifer hefyd am atgyfnerthu perthnasoedd gyda grwpiau, rhwydweithiau a fforymau 50+ cymunedol lleol sefydledig,

Gwaith allgymorth ac ymgyrchoedd gwybodaeth

Soniodd byrddau iechyd am yr ystod eang o sianeli a ddefnyddiwyd i ddarparu gwybodaeth am y rhaglen frechu a oedd yn cynnwys erthyglau papur newydd, hysbysebion radio a phosteri a thaflenni yn ogystal â chyfathrebu ysgrifenedig yn uniongyrchol i unigolion. Soniwyd hefyd am sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd, a oedd naill ai'n cael eu cynnal mewn cyfarfodydd cyhoeddus a gynhaliwyd neu gyda stondinau gwybodaeth mewn mannau poblogaidd fel archfarchnadoedd.



Rhan 1b – Cynnal neu wella mynediad at wybodaeth a gwasanaethau yn y dyfodol

Cynnal a datblygu mesurau a nodwyd

Dywedodd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol a byrddau iechyd bod y mesurau a nodwyd ganddynt i sicrhau y byddai mynediad at wybodaeth drwy ddulliau nad ydynt yn ddigonol yn cael ei gynnal a'i ddatblygu wrth i gyfyngiadau Covid-19 ddechrau cael eu llacio.

Diweddaru Gwybodaeth a dosbarthu deunydd argraffedig

Nododd awdurdodau a byrddau iechyd y byddai taflenni gwybodaeth, cylchlythyrau a manylion ynghylch argaeledd gwasanaethau yn cael eu diweddaru a'u dosbarthu.

Cynyddu capasiti'r gwasanaeth ffôn

Dywedodd rhai awdurdodau lleol a rhai byrddau iechyd lleol y byddent naill ai'n ceisio cynyddu'r nifer o staff a oedd yn gweithredu'r gwasanaeth ffôn a/neu'n diweddaru'r system ffôn ei hun er mwyn darparu mwy o gapasiti.

Hyfforddiant staff

Nododd nifer o awdurdodau'r angen i ddarparu hyfforddiant i staff gan gyfeirio at y Canllawiau A12, tra bod eraill wedi adlewyrchu y byddai angen ystyried hyn fel rhan o'u Cynllun Cydraddoldeb ehangach. Cynlluniwyd hyfforddiant staff ar gyfer staff rheng flaen llyfrgelloedd hefyd er mwyn iddynt allu helpu ymholwyr i ganfod gwybodaeth a ddelir yn ddigidol.

Rhaglenni gweithgareddau llesiant

Dywedodd nifer o awdurdodau eu bod yn awyddus i barhau i ddarparu rhaglenni o weithgareddau llesiant, clybiau cerdded ac ati, ac y byddent yn eu defnyddio i ddosbarthu gwybodaeth ac ymgysylltu â phobl hŷn. Roedd dyhead a bwriad hefyd i ail-ddechrau'r gweithgareddau pontio'r cenedlaethau.

Cyfarfodydd Hybrid

Dywedodd rhai o'r awdurdodau eu bod yn bwriadu archwilio a hwyluso'r bwriad i gynnal cyfarfodydd pobl hŷn fel cyfarfodydd hybrid, lle gall pobl hŷn sy'n cwrdd wyneb yn wyneb mewn hybiau cymunedol gysylltu â phobl hŷn eraill sy'n cysylltu o'u cartrefi drwy lwyfan digidol.

Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio a Chymunedau Oed-gyfeillgar

Soniodd nifer o awdurdodau lleol eu bod eisoes yn ymgysylltu â grwpiau o bobl hŷn, grwpiau cynghori a fforymau a'u bod yn ymgynghori â hwy fel rhan o'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo wrth gyflawni'r strategaeth. Roedd ymgynghoriadau ac arolygon yn cael eu cynnal hefyd gyda phobl hŷn ynghylch y newidiadau sydd eu hangen er mwyn bod yn fwy oed-gyfeillgar.

Rhan 2a – Galluogi a chefnogi pobl hŷn i fynd ar-lein

Awdurdodau Lleol

Nodwyd tri phrif ddull gan yr awdurdodau lleol i alluogi a chefnogi pobl hŷn i fynd ar-lein: darparu dyfais ar fenthyg, cymorth i gysylltu â'r rhyngrwyd a darparu hyfforddiant cychwynnol a chysylltu â'r rhyngrwyd, a darparu hyfforddiant cychwynnol a chymorth parhaus er mwyn i bobl hŷn fagu hyder a bod yn ddiogel pan fyddant ar-lein.



Cynlluniau Benthyca Dyfais

Soniodd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol bod ganddynt gynllun benthyca dyfais ar waith lle dosbarthwyd dyfeisiau i gartrefi gofal, tai gwarchod neu i unigolion. Soniodd rhai awdurdodau bod y cynlluniau'n cael eu gweinyddu gan lyfrgelloedd lleol lle'r oedd mynediad ar gael i'r cyhoedd at gyfrifiaduron, a soniodd eraill am ddull 'profi cyn prynu'.

Cysylltu â'r rhyngrwyd

Dywedodd nifer o awdurdodau eu bod wedi cynyddu argaeledd eu mynediad at wi-fi mewn adeiladau cyhoeddus a bod rhai yn darparu mynediad pellach am ddim yng nghanol trefi. Nodwyd hefyd bod dyfeisiau'n cael eu darparu weithiau gyda donglau wedi'u llwytho â wi-fi ymlaen llaw (Mi-fi) pan oedd cysylltedd yn broblem.

Hyfforddiant a chymorth

Soniodd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol am gyrsiau hyfforddiant a chymorth parhaus i bobl hŷn i ddod yn hyfedr a hyderus wrth ddefnyddio eu dyfeisiau, gyda chefnogaeth hyrwyddwyr neu gyfeillion digidol yn aml. Soniodd nifer o'r awdurdodau lleol hefyd am hyfforddiant i staff rheng flaen i ddod yn hyrwyddwyr digidol, yn ogystal â recriwtio hyrwyddwyr neu gyfeillion gwirfoddol.

Mesurau eraill

Cymorth Technoleg Ddigidol

Dywedodd nifer o'r awdurdodau lleol eu bod yn darparu gwasanaeth cymorth dros y ffôn i helpu i gwblhau ceisiadau ar-lein, er enghraifft ceisiadau ar gyfer Bathodyn Glas, neu i ddarparu cyngor a chymorth pan oedd pryderon ynghylch materion diogelwch ar-lein. Soniodd nifer am y cymorth wyneb yn wyneb sydd hefyd ar gael yn y llyfrgell.

Hybiau Cymunedol

Cyfeiriodd nifer o awdurdodau lleol at hybiau cymunedol wedi'u 'hadfywio' a oedd yn cael eu defnyddio i gefnogi pobl i gael mynediad ar-lein drwy ddarparu gofod ac offer ar gyfer cyrsiau Dysgu Cymunedol i Oedolion a sesiynau cymorth pwrpasol a oedd yn cael eu trefnu gan sefydliadau'r sector gwirfoddol.

Cyllid

Soniodd rhai awdurdodau am ddefnyddio cynlluniau grantiau amrywiol i brynu offer a chysylltedd a darparu cymorth sy'n cynnwys y Gronfa Trawsnewid Rhanbarthol. Soniodd eraill am y Gronfa Unigrwydd ac Ynysigrwydd, Y Gronfa Cymorth i Ofalwyr a'r Grant Cynhwysiant Cymunedol.

Prosiectau Band Eang Cymunedol

Soniodd rhai o'r awdurdodau lleol mwy gwledig am y gwaith sy'n cael ei wneud i gyflwyno cysylltedd band eang i rai o'r cymunedau mwy gwledig drwy gael mynediad at gyllid drwy Gynllun Taleb Band Eang Gigabeit Llywodraeth y DU.

Fforymau, Grwpiau a Phaneli Cynghori

Soniodd nifer o awdurdodau lleol am waith sy'n cael ei wneud gyda grwpiau, fforymau a phaneli cynghori pobl hŷn wrth iddynt gynnal arolygon ac ymgynghoriadau i hysbysu gwaith cynllunio i gefnogi Cymru o Blaid Pobl Hŷn: Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio. Soniodd rhai hefyd am wyth nodwedd Cymunedau O Blaid Pobl Hŷn Sefydliad Iechyd y Byd a'r angen i gynnwys cwestiynau ynghylch cynhwysiant/allgau digidol.

Strategaethau Digidol

Mae nifer o awdurdodau lleol wedi datblygu strategaethau digidol a soniwyd bod camau i fynd i'r eithrio ag allgau digidol wedi'u cynnwys ynddynt.

Gweithio mewn partneriaeth

Cyfeiriodd y rhan fwyaf o awdurdodau at y gwaith partneriaeth sy'n parhau gyda'r sector gwirfoddol i ddarparu cymorth i bobl hŷn allu mynd ar-lein.

Byrddau Iechyd

Cyfeiriodd y byrddau iechyd at dri phrif ddull o gynorthwyo pobl hŷn i fynd ar-lein:

- sefydlu a chefnogi ymweliadau rhithiol ar wardiau ysbytai.
- sicrhau bod cymorth (hyrwyddwyr digidol) ar gael i gleifion naill ai gan staff neu wirfoddolwyr; a
- sefydlu apwyntiadau rhithiol a darparu cymorth i gleifion allu ymgysylltu.



Ymweliadau Rhithiol

Cyfeiriodd pob un o'r byrddau iechyd at sefydlu gwasanaeth ymweliadau rhithiol yn ystod y pandemig. Roedd dyfeisiau ar gael ar wardiau a byddai cleifion hŷn a oedd angen cymorth yn derbyn cefnogaeth gan aelod o staff neu gyfaill digidol gwirfoddol er mwyn gallu cysylltu â theuluoedd a ffrindiau yn rhithiol.

Cymorth – Hyrwyddwyr Digidol

Soniodd pob bwrdd iechyd at y cymorth sydd ar gael i gleifion a oedd yn ymgysylltu mewn ymweliad rhithiol – darparwyd y gefnogaeth gan weithwyr amrywiol mewn gwahanol fyrddau iechyd, gan gynnwys gwirfoddolwr cyfaill ward, aelod o dîm profiad cleifion a chaplan ysbyty. Soniodd rhai byrddau iechyd am asiantaethau'r sector gwirfoddol yn darparu cymorth mewn lleoliadau ysbyty a'u cyfeirio at gymorth digidol pellach sydd ar gael mewn llyfrgelloedd a chyrsiau eraill sy'n cael eu darparu yn y gymuned. Soniwyd hefyd bod asiantaethau'r sector gwirfoddol wedi darparu hyrwyddwyr digidol gwirfoddol a soniodd un bwrdd iechyd am greu cysylltiad gydag Eryrod Digidol Barclays.

Apwyntiadau Rhithiol

Soniodd y rhan fwyaf o'r byrddau iechyd am gyflwyno gwasanaeth ymgynghoriad fideo GIG Cymru 'Attend Anywhere'. Soniodd rhai hefyd am ddarparu dehonglwyr neu gyfieithwyr trydydd parti heb yr angen i deithio. Cyfeiriodd un bwrdd iechyd at sefydlu 'derbynnydd rhithiol' i ddarparu cymorth un i un i gleifion sy'n mynychu apwyntiad fideo. Soniwyd hefyd am adnoddau Cwestiynau Cyffredin a fideo i helpu i ddefnyddio'r dyfeisiau er mwyn gallu cysylltu. Soniodd un bwrdd iechyd am sefydlu Porth i Gleifion a oedd yn darparu apwyntiadau rhithiol, yn ogystal â galluogi trefniant hunan-fonitro rhwng adran yn yr ysbyty a chleifion â chyflyrau iechyd penodol.

Mesurau eraill a grybwyllwyd

Uwchraddio ffonau clyfar staff

Dywedodd un bwrdd iechyd bod staff Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolraddol wedi derbyn ffonau symudol wedi'u huwchraddio y gellid eu defnyddio wrth ymweld â chleifion heb ryngrwyd yn eu cartref, gan ddarparu dull i ymweld â gwefannau hunangymorth yn rhithiol, nodi grwpiau lleol o ddiddordeb y gellir cysylltu â hwy a/neu ddangos delweddau o gynnyrch.

Negeseuon wedi'u hwyluso

Disgrifiodd bwrdd iechyd arall wasanaeth lle'r oedd negeseuon gan ffrindiau neu berthnasau a dderbyniwyd drwy e-bost yn cael eu trosglwyddo i gerdyn cyfarch a'u dosbarthu i'r claf.

Cynlluniau benthyca dyfais

Cyfeiriodd rhai byrddau iechyd at ddarpariaeth benthyca dyfeisiau er mwyn gallu cysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol neu i osgoi ynysigrwydd cymdeithasol.

Rhyddhau capasiti

Dywedodd nifer o fyrddau iechyd bod galluogi a chefnogi cymaint o gleifion hŷn â phosibl i ymgysylltu'n ddigidol, ac felly'n fwy effeithlon, yn golygu y byddai mwy o adnoddau ar gael i wasanaethu'r cleifion hynny nad oeddent yn dymuno ymgysylltu'n ddigidol.

Rhan 2b – Cynnal neu ddatblygu mesurau i alluogi a chefnogi pobl hŷn i fynd ar-lein yn y dyfodol

Dywedodd awdurdodau lleol a byrddau iechyd eu bod yn ymrwymedig i gynnal a datblygu'r mesurau sydd ganddynt ar waith i alluogi a chefnogi pobl hŷn i fynd ar-lein ac i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder i wneud hynny'n ddiogel.

Awdurdodau Lleol

Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi canfod bod angen cydgrynhoi a datblygu ymhellach y mesurau a fu fwyaf llwyddiannus o ran cefnogi pobl hŷn i fynd ar-lein.

Hybiau Cymunedol

Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol at gynlluniau i ddatblygu'r Hybiau Cymunedol ymhellach er mwyn parhau i ddarparu cymorth technegol i bobl hŷn sydd newydd ddechrau mynd ar-lein, yn ogystal â'r rhai sy'n dymuno dysgu am sut i fynd ar-lein am y tro cyntaf. Soniwyd yn aml am gyrsiau hyfforddiant a chyfleusterau cymorth galw heibio, yn ogystal â sesiynau 'coffi a chyfrifiaduron' llai ffurfiol. Disgrifiwyd dull hybrid hefyd mewn un awdurdod a datblygiad pellach o rwydwaith o 'neuaddau pentref rhithiol'.

Dyfeisiau

Dywedodd nifer o awdurdodau lleol y byddent yn parhau i ddarparu dyfeisiau naill ai ar sail benthyca neu 'brofi cyn prynu'. Soniodd rhai hefyd am archwilio'r defnydd o ddyfeisiau sy'n cael eu hysgogi gan lais a chlustffonau rhith-realiti, a soniodd un arall am gynlluniau i gynyddu'r niferoedd o ddyfeisiau Gweithgareddau Rhyngweithiol Therapi Atgoffa (RITA) mewn cartrefi gofal. Soniodd nifer hefyd am fuddsoddiad pellach mewn Technoleg Gynorthwyol ar gyfer pobl hŷn i'w cynorthwyo i gynnal eu hannibyniaeth.

Llyfrgelloedd

Soniodd nifer o awdurdodau am ddarparu cymorth digidol drwy lyfrgelloedd lleol, gyda staff yn derbyn hyfforddiant i fod yn hyrwyddwyr digidol, yn ogystal â darparu gwasanaeth benthyca dyfais.

Cysylltedd

Dywedodd nifer o awdurdodau eu bod yn bwriadu parhau i ehangu eu darpariaeth o fynediad at wi-fi i'r cyhoedd mewn adeiladau cyhoeddus ac yng nghanol trefi. Soniodd eraill hefyd am gynlluniau i sicrhau bod gan eu tai gwarchod gysylltedd digonol.

Ymgynghoriad

Pan oedd awdurdodau wedi sôn am ymgynghoriad parhaus gyda phobl hŷn, naill ai fel rhan o'u gweithgarwch ymgysylltu o dan y Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio neu fel rhan o'u hymdrechion i ddod yn Gymuned Oed-gyfeillgar, roeddent yn dweud y byddai cynhwysiant digidol a pha gamau sydd eu hangen i gefnogi pobl hŷn i fynd ar-lein yn ffurfio rhan annatod o'r gwaith.

Gweithio mewn partneriaeth

Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r awdurdodau at y gwaith partneriaeth a oedd yn parhau gyda'r sector gwirfoddol i ddarparu cymorth i bobl hŷn allu mynd ar-lein a'u bod yn bwriadu ehangu'r gwaith partneriaeth hwnnw i gynnwys mentrau ar y cyd gyda byrddau iechyd.

Byrddau Iechyd

Soniodd nifer o fyrddau iechyd am eu bwriad i barhau i ddatblygu a chyflawni eu strategaethau digidol, sy'n canolbwyntio'n benodol ar gynhwysiant digidol.

Grwpiau Ffocws – Grwpiau Cleifion

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r strategaethau hynny, dywedodd nifer o fyrddau iechyd eu bod wedi sefydlu (neu eu bod yn bwriadu sefydlu) grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth a grwpiau ffocws y byddant yn gweithio gyda hwy i gynhyrchu systemau ar y cyd sy'n ceisio mynd i'r afael ag allgáu digidol.

Gwella ymgynghoriadau rhithiol Attend Anywhere

Dywedodd nifer o fyrddau iechyd bod angen parhau i adolygu a gwella'r rhaglen ymgynghori rithiol Attend Anywhere, a oedd yn cydnabod y bydd angen mwy o gymorth ar rai pobl hŷn, naill ai yn eu cartref eu hunain neu mewn hwb/lleoliad cymunedol. Soniwyd y gallai'r cymorth hwn gael ei ddarparu gan hyrwyddwyr digidol gwirfoddol neu gydgysylltydd digidol cyflogedig.

Ymhlith y mesurau eraill sy'n cael ei ystyried i sicrhau bod Attend Anywhere yn fwy hygyrch i bawb, roedd darparu data am ddim ar gyfer ymgynghoriadau, datblygu canllawiau cam wrth gam cliriach ar sut i'w defnyddio, darparu sesiynau 'profi' neu 'profi a gweld' er mwyn helpu pobl i ymgyfarwyddo, a galluogi dehonglwyr i ymuno ag ymgynghoriad.

Gwasanaethau Digidol i Gleifion a'r Cyhoedd

Cyfeiriwyd at y rhaglen genedlaethol sy'n cael ei datblygu gan Gofal Iechyd Digidol Cymru a datblygiad yr Ap GIG Cymru, er nad esboniwyd yn llawn pa gamau oedd yn cael eu cymryd i oresgyn y rhwystr o allgau digidol.

Gweithio mewn partneriaeth

Dywedodd nifer o fyrddau iechyd eu bod yn ymrwymedig i barhau i ddatblygu eu perthynas gyda'r sector gwirfoddol a'r awdurdodau lleol yn eu rhanbarth i nodi a chefnogi mentrau i fynd i'r afael ag allgáu digidol. Cyfeiriwyd at Cymunedau Digidol Cymru yn aml fel partner gan yr holl fyrddau iechyd fel y partner i fynd atynt i gael arbenigedd a hyfforddiant.

Y ffordd ymlaen

Mae'r ffurflenni a gwblhawyd a ddarparwyd gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd mewn ymateb i Ganllawiau'r Comisiynydd wedi darparu llawer o wybodaeth ddefnyddiol am y mesurau a'r mentrau sydd ar waith yn awr, a'r rhai sydd ar y gweill, er mwyn sicrhau y gall pobl hŷn gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau drwy ddulliau nad ydynt yn ddigidol a'u bod yn derbyn cefnogaeth i fynd ar-lein os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mae'n ymddangos bod llawer o waith wedi'i wneud i ail-sefydlu mathau mwy 'traddodiadol' nad ydynt yn ddigidol o wybodaeth a gwasanaethau yn dilyn yr ymdrech gychwynnol i ddarparu gwasanaethau ar-lein yn ystod dyddiau cynnar y pandemig, rhywbeth a achosodd i lawer o bobl hŷn a oedd wedi'u hallgáu'n ddigidol deimlo eu bod wedi'u diystyru. Yn ogystal, mae'r ymatebion yn dangos yr ystod o waith sy'n cael ei wneud i gefnogi pobl hŷn i fynd ar-lein, yn arbennig gan awdurdodau lleol, gan gynnwys cymorth drwy hyrwyddwyr digidol a darparu dyfeisiau a chysylltedd.

Mae'r ymatebion yn awgrymu bod yr ymarfer hwn wedi galluogi i lawer o awdurdodau adolygu pa fesurau sydd ganddynt ar waith a nodi unrhyw fylchau a allai fodoli, a fydd yn helpu i hysbysu ac atgyfnerthu eu cynlluniau i gyflawni yn erbyn Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio.

Soniodd llawer o'r awdurdodau am ddull partneriaeth wrth symud ymlaen ac mae llawer wedi ymrwymo hefyd i ymgysylltu ymhellach â phobl hŷn drwy baneli a fforymau cynghori er mwyn cynllunio'r ffordd ymlaen. Bydd yr ymgysylltiad hwn yn hollbwysig er mwyn gallu adolygu a gwerthuso'r gwasanaethau a'r cymorth sy'n cael eu darparu yn rheolaidd – a p'un a yw'r rhain yn cyflawni anghenion pobl hŷn – a nodi lle mae angen gwneud gwelliannau.

Mae'r Comisiynydd wedi darparu adborth unigol yn ysgrifenedig i bob awdurdod lleol a bwrdd iechyd a bydd yn parhau i fonitro'r camau maent yn eu cymryd i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael mynediad at y wybodaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen a/neu'r cymorth i fynd ar-lein. Bydd hyn yn cynnwys parhau i ymgysylltu â phobl hŷn ledled Cymru i glywed yn uniongyrchol am eu profiadau, ac a ydynt wedi gallu cael mynediad at y wybodaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt a/neu gymorth i fynd ar-lein. Mae'r Comisiynydd wedi cynghori awdurdodau lleol a byrddau iechyd y bydd yn rhannu adborth gan bobl hŷn ac y gallai fod angen gwybodaeth bellach arni am y mesurau a'r mentrau sy'n cael eu cyflawni, er mwyn sicrhau bod pobl hŷn wedi'u galluogi a'u cefnogi i gael mynediad at wybodaeth.

Bydd y Comisiynydd hefyd yn parhau i rannu a hyrwyddo enghreifftiau o arfer da a phwysleisio arloesedd a syniadau y gellir eu cyflawni'n fwy eang er mwyn adeiladu ar yr hyn sydd ar waith a chefnogi mwy o bobl hŷn.

Mae pobl hŷn yn parhau i wynebu heriau sylweddol, gan gynnwys yr argyfwng costau byw, sy'n golygu ei bod yn hollbwysig sicrhau y gallant gael mynediad at y wybodaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt – naill ai drwy ddulliau digidol neu ddulliau nad ydynt yn ddigidol. Felly, bydd adeiladu ar yr hyn sydd eisoes ar waith a datblygu gwaith partneriaeth ymhellach i gyflawni'r mathau o gamau gweithredu a nodir yng Nghanllawiau'r Comisiynydd yn hollbwysig er mwyn helpu i gefnogi pobl hŷn drwy'r hyn a fydd yn aeaf anodd i lawer.

.

Atodiad A – Mae'r Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd a gyfrannodd i'r adroddiad hwn

Awdurdodau Lleol

CBS Blaenau Gwent
CBS Pen-y-bont ar Ogwr
CBS Caerffili
Cyngor Caerdydd
CS Gaerfyrddin
CS Ceredigion
CBS Conwy
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ynys Môn
CBS Merthyr Tudful
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Dinas Casnewydd
CBS Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Sir Powys
CBS Rhondda Cynon Taf
Cyngor Abertawe
CBS Torfaen
Cyngor Bro Morgannwg
CBS Wrecsam

Byrddau Iechyd

BIP Aneurin Bevan
BIP Betsi Cadwaladr
BIP Caerdydd a'r Fro
BIP Cwm Taf Morgannwg
BIP Hywel Dda
Bwrdd Iechyd Addysgu? Powys
BIP Bae Abertawe
Ymddiriedolaeth GIG Felindre

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales